

Amaethyddiaeth

www.aber.ac.uk/cy/ibers

NEWYDDION

Hydref 2010

Llwyddiant ysgolorion o Gymru

Fe fu ysgolorion ar gynllun Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales (HCC) yn teithio i wledydd oedd yn cynnwys Seland Newydd, UDA, Awstralia a'r Ariannin i astudio arferion ffermio y gellid eu defnyddio yng Nghymru er budd y diwydiant cyfan.

Myfyriwr graddedig o Brifysgol Aberystwyth, Eurion Thomas, enillodd yr ysgoloriaeth yn 2009 a bu'n ymweld a Seland Newydd i astudio systemau rheoli glaswelltir. Dywedodd Eurion, "...roedd yn bendant yn gyfle gwych i astudio arferion ffermio eraill a rhoi cyfle i feddwl y tu allan i'r bocs ynghylch sut mae rhywun yn ffermio. 'Roedd yn brofiad gwerthfawr i mi a byddwn yn argymhell i unrhyw un wneud cais.' Fe wnaeth Eurion, o Lanilar, darparu wybodaeth gyfredol rheolaidd drwy HCC wefan Wyneb Cig Oen Cymru yn ystod ei daith pum wythnos.

Un o enillwyr y flwyddyn flaenorol, sydd hefyd yn fyfyrwr graddedig, yw Marc Jones, Trefnant Hall, Berriew ger Y Trallwng. Fe wnaeth hefyd deithio i Seland Newydd. Mae'n credu fod yr hyn a ddysgodd yn cael effaith ar sut y mae'n ffermydd. Teithiodd Marc i Seland Newydd er mwyn ymchwilio i addasiadau mewn systemau cynhyrchu cig oen fyddai'n ddiwallu gofynion marchnad newidiol. Canfu fod ffermwyr yn Seland Newydd wedi gorfod newid eu technegau ffermio dros y degawd diwethaf er mwyn cynyddu cynhyrchiant. Mae'r

IBERS Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig

newidiadau hyn yn cynnwys datblygu bridiau newydd sy'n diwallu anghenion y farchnad, cynyddu effeithlonrwydd lladd-dai, gwella genoteip defaid a chynnal system porthiant yn seiliedig ar laswellt. Mae mwy o ffermwyr yn defnyddio bridiau defaid cyfansawdd ac mae llawer o ladd-dai yn mabwysiadu technolegau newydd i wella eu effeithlonrwydd. Ers dychwelyd adref mae Marc eisoes wedi ymchwilio i rai o'r syniadau a welodd yn Seland Newydd gan ymchwilio i'r posibilrwydd o dyfu swêds i aeafu mamogiaid. Ychwanegodd 'Fe wnaeth yr hyn a welais yn ystod fy ysgoloriaeth fy ngalluogi i gyflwyno syniadau newydd ar y fferm. Rwyf wedi cynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant y mentrau defaid.'

Rhestr Cysiau

BSc Anrhydedd

Amaethyddiaeth
Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid
Amaethyddiaeth gyd Rheolaeth Cefn Gwlad
Amaethyddiaeth a Marchnata
Amaethyddiaeth ac Astudiaethau Busnes

Gradd Sylfaenol

Amaethyddiaeth

DGU

Amaethyddiaeth
Amaethyddiaeth gyda Busnes
Amaethyddiaeth a Chadwraeth Cefn Gwlad

Cyswilt

Iwan Owen
Penri James

(01970) 624471
igo@aber.ac.uk
wpj@aber.ac.uk

Marc Jones (Chwith) with Eurion Thomas (Dde)





Dewch i ffermio – cyfle i fewnddyfodiaid newydd

Yn ddiweddar derbyniodd ein cyn fyfyrwr, Rhys Williams, Ysgoloriaeth Nuffield (Gwobr Ymddiriedolaeth Trehane) i astudio ecwiti ffermydd llaeth.

Rhys yw Cyfarwyddwr y Mentrau Ffermio a pherchennog hanner ecwiti Ffermydd Padog Cyf. Maent yn ffermio 1,500 erw ar ddwy fferm yng Ngogledd Cymru ar Phenrhyn Llyn, yn godro 1,300 o wartheg a chadw 900 o stoc ifanc mewn system cost isel sy'n seiliedig ar laswellt.



Indrawn yw'r ateb

Un o'r ffactorau allweddol sy'n mynd i alluogi'r Brifysgol i gynyddu maint y fuches odro yn 'Y Lodge' yn Nhrwsgoed i 550 buwch yw cynhyrchu porthiant gaeaf ar rai o'r unedau eraill fel Morfa Mawr, Frondeg a Gelli Angharad sydd rai milltiroedd i ffwrdd. Dim ond 128ha (320cyfer) o borfa sydd ar gael ar gyfer y fuches yn Nhrwsgoed er mwyn cynhyrchu'r holl angenion pori yn ogystal a chyfanswm o 120ha o silwair porfa mewn dau doriad ond bydd 50ha (125cyfer) o indrawn, 25ha (62cyfer) o feillion coch a 20ha (50cyfer) o wenith yn cyfuno i gynhyrchu ffynhonell dra gwerthfawr fel atodiad i hyn.

"Creu cyfoeth drwy gynyddu ecwiti'r partneriaethau ffermio llaeth yw fy ddi-ddordeb mawr. Yr wyf yn argyhoeddedig y gall ffermydd llaeth yn y DU sy'n seiliedig ar borfa fod yn broffidiol iawn a bod partneriaethau ecwiti yn cynnig cyfleoedd gwych i ffermwyr ifanc newydd i'r diwydiant llaeth ddod i berchen fferm a chreu cyfoeth. Gall perchnogion tir hefyd cymryd rhan mewn busnesau proffidiol, blaengar os ydynt yn deall y cyfleoedd ar gael drwy greu partneriaethau ecwiti.

"Hoffwn i deithio i Seland Newydd, De Awstralia a gwledydd De America - Chile, yr Ariannin ac Uruguay, i weld enghreifftiau o ehangu cyflym yn seiliedig ar dyfu porfa a phartneriaethau ecwiti llaeth. Yn benodol, yr wyf yn awyddus i ddysgu am eu strwythurau busnes a phartneriaeth, ac am y ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at elw. Rwyf hefyd yn awyddus i ddysgu sut y mae'r partneriaid ecwiti a rheolwyr fferm yn cyfathrebu'n effeithiol o fewn a rhwng unedau busnes, a sut y maent yn cyfnwio gwybodaeth am gyriedyddion elw allweddol, er enghraifft, ffrwythlondeb y fuches, targedau tyfu porfa a llif arian."

Mae Rhys yn awyddus i roi ei ganfyddiadau ar waith, ac yn credu y gall ehangu'r busnes yn y dyfodol hyd at 7,000 o wartheg – o'r sylfaen gyfredol o 1,000 - dros y 10 mlynedd nesaf os yw'n yn cadw rheolaeth dyn ar lif arian a gosod targedau thrylwyr ar gyfer elw.

'Mae llawer iawn o ffermydd llaeth yn yr un sefyllfa a ni'meddai Rheolwr y Ffermydd Dr Huw McConochie ' gyda eangu'r busnes yn dibynu'n llwyr ar brynu neu rentu tir sydd belter o'r brif uned. Bydd y porthiant ychwanegol yn gyfategol i borfa a silwair porfa ac yn ein galluogi i gynyddu cynhyrchiant llaeth o fwydydd a gynhyrchwyd ar ein ffermydd ein hunain. Ond, yn bwysicach fyth, bydd y costau cynhaefu yn llai o lawer na chymeryd dau neu 8 dri toriad o silwair porfa gan mai dim ond un cynhaeaf fydd i'w gymeryd o'r cnydau gwenith a'r indrawn a bydd holl logisteg y broses o gario cnydau sy'n cynhyrchu'n dda ac o ansawdd bwydo uchel yn ein galluogi i wneud llawer gwell elw. 'Rydym yn ffodus ein bod yn ffermio mewn ardal eithaf mwyn ond, drwy weithio yn agos a'r bridwyr planhigion Pioneer a chwmni Samco o Iwerddon, sydd wedi datblygu system hau gwbl integreiddedig ar gyfer tyfu indrawn dan orchudd o blastig, gobeithiwn gyfuno'r dewis delfrydol o rywogaethau a phlastig er mwyn cynyddu cynhyrchiant, yn enwedig o'r cobiau sy'n cynnwys y rhan helaethaf o'r maeth, er mwyn cael y gorau allan o'n gwartheg sydd o safon geneteg hynod o uchel.'




Ymchwil rhyngwladol £1m i effeithiau llyngyr yr iau

Mae Prifysgol Aberystwyth yn rhan o ymgyrch ymchwil rhyngwladol gwerth £1 miliwn i geisio goresgyn llyngyr yr iau - parasit sy'n achosi clefyd i anifeiliaid, a biliynau mewn colledion ariannol i amaethwyr ar draws y byd.

Mae'r clefyd a achosir gan llyngyr yr iau - Fasciolosis - yn cael effaith dirfawr ar anifeiliaid ar draws y byd, gan achosi salwch a gostyngiad sylweddol yn eu cynhyrchiant. Amcangyfrifir i'r colledion i amaethwyr y Deurnas Gyfunol (DG) fod dros £300 miliwn yn flynyddol, tra yn India, mae Fasciolosis yn gyfrifol am gollodion gwerth rhwng £1.3 a £3 biliwn y flwyddyn.

Bydd parasitolegwyr o Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth yn gweithio â phartneriaid yn Ysgol Gwyddorau Biolegol Queen's, Belfast; Prifysgol Fwslimaidd Aligarh a Phrifysgol Gwyddorau Anifeiliaid a Milfeddygaeth Tamil Nadu yn India, i ddarganfod brechiad ar gyfer y clefyd.



Myfyriwr PhD, Neil Mackintosh, a'r Athro Peter Brophy - yn ceisio darganfod brechiad yn erbyn llyngyr yr iau

Dywedodd Yr Athro Wayne Powell, Cyfarwyddwr IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth: "Rwy'n hynod falch bod IBERS yn gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â sialensiau byd-eang gan gyfrannu at ddatrysiadau o'r broblemau mwyaf difrifol y byd datblygedig."

Dywedodd Yr Athro Aaron Maule Ysgol Gwyddorau Biolegol Queen's: "Mae llyngyr yr iau yn achosi colledion difrifol i wartheg, byfflo, geifr a defaid ag yn fygythiad difrifol i fywoliaeth amaethwyr mewn sawl ardal o Asia ag Affrica. Gall amaethwyr yn India weld gostyngiad o 30 y cant yng nghynhyrchiant llaeth byfflo sydd wedi ei heintio. Mae'r parasit hwn yn fyrdwn enfawr i economi India sy'n hynod ddibynnol ar amaeth.

"Yn y byd datblygedig, rheolir llyngyr yr iau gan gyffuriau a ddefnyddir i'w difa. Fodd bynnag, mae ymwrthiant cyffuriau ar gynydd. Wrth i'r cyffuriau yma ddod yn llai effeithiol, gwelir cynnydd yn yr achosion o'r clefyd yn y DG.

"Mae angen strategaeth reoli newydd arnom ar frys, wedi'i seilio ar frechiadau neu gemotherapi. Dyma'n union y byddwn yn ei weithio arno, gyda'n partneriaid yng Nghymru ac India, i'w ddatblygu dros y tair blynedd nesaf.